**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau , Dydd Iau, 17 Rhagfyr 2020**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Gareth Lloyd Davies a David G Williams. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Ni ddatganwyd dim. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Nid oedd unrhyw fater brys wedi'i godi gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod. |
| **4** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2020.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - derbyn cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2020 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir o'r cyfarfod.***<br><br>Ni chafodd unrhyw fater ei godi mewn cysylltiad â chynnwys y cofnodion. |
| **5** | DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL AR GYFER 2019-20 | Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol***<br><br>***(i) yn derbyn perfformiad a diweddariad ystadegol ar gyfer 2019-20; ac***<br>***(ii) adroddiad 6 mis diweddaraf ar ystadegau troseddu a chamau gweithredu'r Bartneriaeth*** |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau , Dydd Iau, 17 Rhagfyr 2020**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **6** | CYNLLUNIAU CYNLLUN TEITHIO LLESOL COVID-19 | Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u>* - yn amodol ar y pryderon a'r sylwadau uchod -**<br><br>***(i) cydnabod y broses a ddilynwyd gan y Cyngor yn adnabod a datblygu prosiectau, gwneud cais am y grant a rhoi prosiectau ar waith, ynghyd â'r anawsterau a gafwyd oherwydd yr amserlen dynn gan Lywodraeth Cymru;***<br>***(ii) pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar yn y dyfodol â Grwpiau Ardal yr Aelodau, aelodau lleol, cynghorau tref a chymuned ar gyfer cynlluniau arfaethedig i ddefnyddio cyllid grant llywodraeth ganolog mewn trefi neu gymunedau penodol; a***<br>***(iii) chyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor mewn chwe mis ar effaith cynlluniau Teithio Llesol Covid-19 ar drefi Sir Ddinbych a'r gwersi a ddysgwyd o gynllunio ar gyfer y cynllun penodol yma'n barod ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol gyda dyddiadau cau tynn i gyflwyno ceisiadau ac ysgrifennu.*** |
| **7** | RHAGLEN WAITH CRAFFU | Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u>* -**<br><br>***(i) yn amodol ar gynnwys yr uchod a'r diwygiadau, i gymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor; a***<br>***(ii) phenodi y Cynghorydd Christine Marston i wasanaethu fel cynrychiolydd Craffu Sir Ddinbych ar Fwrdd Prosiect Canolfan Asesu Gofal Plant Is-ranbarthol.*** |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau , Dydd Iau, 17 Rhagfyr 2020**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |
| **8** | ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR | Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - derbyn adroddiad y Cynghorydd Marston ar drafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod diweddar Grŵp Cyfeirio Budd-ddeiliad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.*** |